# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

# Cynllun Gweithredu

Caiff cynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei adolygu'n flynyddol, er mwyn dangos cynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu, ymgorffori meysydd gwaith newydd i'r cyngor, newidiadau i ddeddfwriaeth a datblygiad unrhyw amcanion newydd ar gyfer hyd y cynllun.

**Cynnwys**


Amcan un: Addysg ........ 1

Amcan dau: gwaith........ 5

Amcan tri: Safonau byw ........ 8

Amcan pedwar: Iechyd a lles ........ 11

Amcan pump: Diogelwch a pharch ........ 15

Amcan chwech: Cyfranogiad ........ 19


## Amcan un: Addysg

Dylai pawb sy'n cael addysg fod yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio a chamdriniaeth mewn lleoliadau addysg.

### Deilliant un

Lleihau achosion o fwlio ar sail casineb mewn ysgolion.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

1.1.1 Adolygu'r broses sydd ar waith i roi gwybod i'r awdurdod lleol am fwlio ar sail casineb mewn ysgolion, gan gynnwys

homoffobia, anabledd, crefydd a chred yn ogystal â digwyddiadau ar sail rhyw neu hil.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

1.1.2Dadansoddi data bwlio a gesglir gan ysgolion, gan gynnwys bwlio hiliol, er mwyn nodi tueddiadau ac adolygu strategaethau gwrth-fwlio fel bod atebion effeithiol ar waith.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd a'r Tîm Cydraddoldeb.

**Deilliant dau**
Addasu'r cwricwlwm mewn ysgolion i adlewyrchu ymgyrch Black Lives Matter.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

1.2.1Gweithredu'n llawn ar ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad gweithgor Llywodraeth Cymru o'r adnoddau dysgu sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a 'chynefin' ym mhob rhan o'r cwricwlwm yn ein hysgolion.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

**Deilliant tri**
Gwella gallu dysgwyr a staff i gael gafael ar wybodaeth am gydraddoldeb mewn ysgolion.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

1.3.1Darparu hyfforddiant cydraddoldeb, rhagfarn anymwybodol a meddwl beirniadol i bob dysgwr yn rhan o'r cwricwlwm.

Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

1.3.2 Darparu hyfforddiant cydraddoldeb, rhagfarn anymwybodol a meddwl beirniadol i staff addysgu a holl gyrff llywodraethu ysgolion.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

**Deilliant pedwar**
Sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu hystyried mewn lleoliadau dysgu i oedolion a lleoliadau addysg eraill.
Y camau gweithredu i gyflawni’r deilliant hwn fydd:

1.4.1Ymgynghori â dysgwyr er mwyn pennu a monitro anghenion drwy gydol y rhaglenni dysgu; cynnig cymorth ychwanegol pan nodir anghenion a chynnig cyfleoedd dysgu cynhwysol ond gwahaniaethol.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

1.4.2Parhau i gynnig adnoddau ychwanegol pan nodir unrhyw ddiffyg neu anfantais.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

**Deilliant pump**
Datblygu dull addysg gyfan o ymdrin â Thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Y camau gweithredu i gyflawni’r deilliant hwn fydd:

1.5.1Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod naw elfen y dull ysgol gyfan yn cael eu gweithredu’n effeithiol ar draws pob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Bydd y deilliannau hyn yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil
- Tlodi

Bydd yr amcan hwn yn gweithio o fewn y ffyrdd o weithio canlynol a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogiad

Bydd yr amcan hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Defnyddio adnoddau yn ddoethach
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy cydnerth

**Amcan dau: gwaith**

Hybu gweithlu mwy cynhwysol a gwella cyfranogiad, llesiant a chyfleoedd i ddatblygu ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Deilliant un**

Sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal.

Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

2.1.1Datblygu gwybodaeth am ein gweithlu drwy wella'r broses o gasglu data am y gweithlu drwy annog cyflogeion i ddarparu gwybodaeth ddiweddar am gydraddoldeb.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

2.1.2Hybu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol a'r Tîm Cydraddoldeb.

2.1.3Parhau i adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y rhywiau a chymryd camau cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

2.1.4Sefydlu proses o fonitro lefelau cyflog cyflogeion BAME a'r rhai ag anabledd gyda'r bwriad o nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau y gellid eu darganfod.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

**Deilliant dau**

Cefnogi ein cymunedau i'r byd gwaith

Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

2.2.1Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr i weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cymru'n Gweithio a darparwyr hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni sy'n cefnogi pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

Yr adran arweiniol fydd: Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau.

**Deilliant tri**

Gwella amrywiaeth yn ein gweithlu, gan ganolbwyntio ar oedran, hil ac anabledd.

Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

2.3.1Cyflwyno rhagor o gyfleoedd i raddedigion a phrentisiaid er mwyn cynyddu amrywiaeth y gweithlu.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

2.3.2 Adolygu'r prosesau recriwtio a chyflwyno ymgyrchoedd penodol gyda'r nod o ddenu ceisiadau oddi wrth y gymuned BAME a phobl ag anabledd.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

2.3.3Bod yn gyflogwr mwy hyderus o ran anabledd drwy gynnal ein statws Hyderus o ran Anabledd a datblygu ein cynllun gweithredu Hyderus o ran Anabledd.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

**Deilliant pedwar**

Cynyddu cyfleoedd hyfforddi i staff
Y camau gweithredu i gyflawni’r deilliant hwn fydd:

2.4.1Adolygu’r ddarpariaeth e-ddysgu bresennol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol a pherthnasol ar gael, gan gynnwys yr adran ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn y modiwl ymsefydlu corfforaethol gorfodol er mwyn annog rhagor o staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

2.4.2Darparu hyfforddiant cydraddoldeb a rhagfarn anymwybodol i gyflogeion.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

2.4.3 Darparu hyfforddiant cydraddoldeb a rhagfarn anymwybodol i gynghorwyr er mwyn annog rhagor o gynghorwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant.
Yr adran arweiniol fydd: Y Gwasanaethau Democrataidd.

2.4.4Gweithio gyda sefydliadau cymunedol fel Stonewall, Mental Health Matters, Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn datblygu cyfleoedd hyfforddi i gyflogeion.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol a’r Tîm Cydraddoldeb.

Bydd y deilliannau hyn yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd

- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu famolaeth
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil
- Tlodi

Bydd yr amcan hwn yn gweithio o fewn y ffyrdd o weithio canlynol a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Hirdymor
- Integreiddio
- Cyfranogiad
- Atal
- Cydweithio

Bydd yr amcan hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
- Defnyddio adnoddau yn ddoethach
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy cydnerth

### Amcan tri: Safonau byw

Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol drwy ystyried effaith unrhyw newidiadau polisi neu benderfyniadau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

**Deilliant un**

Sicrhau bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei hystyried yn llawn yn rhan o brosesau'r cyngor o lywodraethu ac o wneud penderfyniadau strategol.

Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

3.1.1Adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gynnwys tlodi fel nodwedd warchodedig.

Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Cydraddoldeb.

3.1.2 Llunio canllawiau a hyfforddiant i'r staff ar weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Cydraddoldeb.

3.1.3 Dangos tystiolaeth o effaith y newidiadau i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adroddiad blynyddol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gaiff ei gyflwyno i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb.

Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Cydraddoldeb.

**Deilliant dau**

Dangos ymrwymiad i gyflogeion ar gyflogau isel drwy gyflwyno cyflog byw gwirioneddol.

Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

3.2.1Gweithredu'r cyflog byw gwirioneddol i holl gyflogeion y cyngor er budd y rhai sydd ar y graddau cyflog isaf.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

**Deilliant tri**

Cefnogi teuluoedd sydd ar incwm isel drwy ymrwymo'n fwy i ddarparu prydau ysgol am ddim.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

3.3.1Parhau i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael prydau ysgol am ddim a darparu parseli bwyd i deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy gydol pandemig COVID-19.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

3.3.2 Darparu'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, yn amodol ar gyllid yn yr ardaloedd lleol y cytunwyd arnynt.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

**Deilliant pedwar**
Cefnogi dysgwyr drwy sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun Urddas yn ystod Mislif.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

3.4.1Parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Wings Cymru i sicrhau y darperir cynhyrchion mislif am ddim i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn y fwrdeistref sirol.
Yr adran arweiniol fydd: Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Bydd y deilliannau hyn yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Rhywedd
- Hil

- Tlodi

Bydd yr amcan hwn yn gweithio o fewn y ffyrdd o weithio canlynol a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio

Bydd yr amcan hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
- Defnyddio adnoddau yn ddoethach
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy cydnerth

**Amcan pedwar: Iechyd a lles**

Cefnogi a hybu iechyd meddwl a chorfforol da yn ein cymunedau a'n gweithlu, a darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

**Deilliant un**
Gwella lles corfforol y staff.

4.1.1 Gweithredu'r asesiad risg COVID-19 ar gyfer y cyflogeion. Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

4.1.2Hybu iechyd a lles cyflogeion drwy bartneriaethau â Halo, y cynllun Beicio i'r Gwaith.
Yr adran arweiniol fydd:Adnoddau Dynol.

4.1.3Datblygu protocol menopos.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

**Deilliant dau**
Gwella lles emosiynol y staff.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

4.2.1Cyflwyno a gweithredu protocol iechyd a lles i gefnogi pob cyflogai.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

4.2.2Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl, ymwybyddiaeth ofalgar a chadernid.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

4.2.3Hybu ymwybyddiaeth iechyd meddwl ymhlith y staff a'r dulliau cymorth sydd ar waith, gan gynnwys addasu i weithio yn ystod pandemig COVID-19.
Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

4.2.4 Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydweithiau staff BAME, staff LGBTQI a staff ag anabledd (camau gweithredu BLM) .
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Cydraddoldeb.

4.2.5 Datblygu protocol gofalwyr.

Yr adran arweiniol fydd: Adnoddau Dynol.

**Deilliant tri**
Darparu a hybu gweithgareddau yn y gymuned i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

4.3.1Gweithio gyda Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu gweithgareddau cymunedol cynhwysol ac integredig i bobl â nodwedd warchodedig mewn partneriaeth â Halo ac Awen (e.e. super-agers, cynllun Hynt, nofio am ddim).
Yr adran arweiniol fydd: Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles .

4.3.2Gweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru i weithredu'r rhaglen chwaraeon anabledd genedlaethol ar gyfer aelwydydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a ledled rhanbarth canol de Cymru.
Yr adran arweiniol fydd: Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

4.3.3Gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid eraill, gan gynnwys Halo Leisure, Awen, Chwarae Cymru, Chwaraeon Cymru, ysgolion a Llywodraeth Cymru i gynnig cyfleoedd chwarae cynhwysol ac integredig i bawb er mwyn sicrhau gofynion chwarae digonol ledled y sir.
Yr adran arweiniol fydd: Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

**Deilliant pedwar**
Codi ymwybyddiaeth o anableddau cudd yn y gymuned a gyda busnesau ledled y fwrdeistref sirol.

Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

4.4.1Hybu ymwybyddiaeth o'r cynllun laniard blodau haul ar gyfer Anabledd Cudd ac ymwybyddiaeth o gardiau cymorth, gan gynnwys y cerdyn 'Ni Allaf Aros', er mwyn sicrhau bod ein cymunedau a'n busnesau yn fwy ymwybodol o anghenion pobl ag anableddau cudd.
Yr adran arweiniol fydd: Cydraddoldeb.

4.4.2Dathlu Diwrnodau ac wythnosau Ymwybyddiaeth sy'n amlygu anableddau cudd megis yr wythnos ymwybyddiaeth o fod yn fyddar, wythnos gweithredu dementia a diwrnodau ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl.
Yr adran arweiniol fydd: Cydraddoldeb.

4.4.3Gwella ymwybyddiaeth o anableddau cudd yn y gweithlu.
Yr adran arweiniol fydd: Cydraddoldeb.

Bydd y deilliannau hyn yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu famolaeth
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil
- Tlodi

Bydd yr amcan hwn yn gweithio o fewn y ffyrdd o weithio canlynol a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio

Bydd yr amcan hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
- Defnyddio adnoddau yn ddoethach
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy cydnerth

**Amcan pump: Diogelwch a pharch**

Sicrhau bod pobl yn ein cymunedau yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n eu cefnogi i fyw heb fod ofn trais na chamdriniaeth, ac i gael eu trin â pharch.

**Deilliant un**

Datblygu a hybu cydlyniad Cymunedol.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

5.1.1Cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE y Swyddfa Gartref a darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol.
Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

5.1.2 Monitro ac ymateb i densiynau cymunedol sy’n ymwneud â’r broses Brexit.
Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

5.1.3Nodi grwpiau cymunedol sy’n cynrychioli ystod ac amrywiaeth dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr a datblygu sianeli cyfathrebu priodol.
Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

5.1.4Cynnal digwyddiadau cymunedol, hybu cydlyniad cymunedol cadarnhaol a dathlu amrywiaeth. Archwilio’r defnydd o ddulliau ar-lein ar gyfer grwpiau cymunedol yn rhinwedd COVID-19.
Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a’r Tîm Cydraddoldeb.

5.1.5Cydweithio i gefnogi digwyddiadau Pride drwy’r brand ‘Cynghorau Balch’. Dangos ein hymrwymiad i’r gymuned a’n gweithlu LGBTQI drwy ddatblygu polisïau ac arferion Cynghorau Balch ar draws pob awdurdod lleol sy’n ymwneud â Chynghorau Balch.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Cydraddoldeb.

**Deilliant dau**
Gwella ymwybyddiaeth a chanlyniadau troseddau casineb.
Y camau gweithredu i gyflawni’r deilliant hwn fydd:

5.2.1Datblygu gweithgareddau sydd wedi eu targedu i sicrhau bod dioddefwyr a darpar ddioddefwyr troseddau casineb yn ymwybodol o’r dulliau adrodd a bod ganddynt ymwybyddiaeth o’r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt mewn cydweithrediad â Heddlu De Cymru a’r tîm Cymorth i Ddioddefwyr.
Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

5.2.2Gweithio gyda phartneriaid i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau i hybu Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (mis Hydref).
Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

**Deilliant tri**
Croesawu Mis Hanes Pobl Dduon.
Y camau gweithredu i gyflawni’r deilliant hwn fydd:

5.3.1Croesawu Mis Hanes Pobl Dduon (mis Hydref) drwy weithio’n agos gydag ysgolion, a thrwy gynnal digwyddiadau cyhoeddus i dynnu sylw at realiti effaith negyddol anghydraddoldeb hiliol ac i ddathlu’r cyfraniad y mae cymunedau BAME wedi’i wneud i’n bywyd lleol a chenedlaethol yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner fel Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i hybu a chodi ymwybyddiaeth o weithgareddau BAME, fel arddangosfa Paul Robeson.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Cydraddoldeb.

**Deilliant pedwar**

Gwella ymwybyddiaeth o sut i adrodd am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r cymorth sydd ar gael.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

5.4.1Nodi tair ymgyrch flynyddol a chynllunio a chyflawni camau gweithredu priodol i sicrhau eu heffaith fwyaf posibl, gan gynnwys:

- Pobl hŷn
- Anabledd dysgu
- Dioddefwyr gwrywaidd

Yr adran arweiniol fydd: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Bydd y deilliannau hyn yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil

Bydd yr amcan hwn yn gweithio o fewn y ffyrdd o weithio canlynol a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio

Bydd yr amcan hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
- Defnyddio adnoddau yn ddoethach
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy cydnerth

**Amcan chwech: Cyfranogiad**

Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan mewn materion sy'n bwysig iddynt ac ymgysylltu â nhw, a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.

**Deilliant un**
Cynyddu nifer y bobl sy'n cyfrannu at ymgynghoriadau
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

6.1.1Sicrhau bod pobl yn cael eu cynrychioli'n briodol yn ymgynghoriadau a digwyddiadau ymgysylltu y cyngor, ac y gallant gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau'r cyngor yn y dyfodol.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

6.1.2 Sicrhau bod holl ymgynghoriadau'r cyngor yn ystyried datblygu fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i bobl ifanc, gan ddibynnu ar yr effaith bosibl.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

6.1.3Adolygu sut y mae'r Panel Dinasyddion yn gweithredu a'i ryngweithio â phenderfyniadau perthnasol y cyngor.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

6.1.4Cynnwys y Cyngor Ieuenctid mewn ymgynghoriadau i sicrhau eu bod yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio gwasanaethau'r cyngor yn y dyfodol.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

**Deilliant dau**
Darparu adnoddau i'r staff er mwyn gwella'u cyfathrebu â'r cyhoedd.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

6.2.1Sicrhau bod adnoddau ar gael i'r staff i'w helpu i ddarparu gwybodaeth hawdd ei deall sy'n ystyried anghenion unigolion.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

**Deilliant tri**
Gwella ymgysylltiad y gymuned â grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

6.3.1Cryfhau ein perthynas â grwpiau gwarchodedig drwy fod yn bresennol mewn fforymau a chyfarfodydd er mwyn sicrhau bod pobl wedi'u cynnwys yng ngweithgareddau'r cyngor a'u bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

6.3.2Rhannu pob ymgynghoriad â Fforwm Cydlyniad Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr, a darparu cyfleoedd i aelod-sefydliadau ymgysylltu wyneb yn wyneb neu ar-lein, pan fo hynny'n berthnasol.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

**Deilliant pedwar**
Hyrwyddo digwyddiadau cymunedol a chydraddoldeb drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.
Y camau gweithredu i gyflawni'r deilliant hwn fydd:

6.4.1Rhannu gwybodaeth a hyrwyddo digwyddiadau fel PRIDE Cymru, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio'r Holocost, mis ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ac eraill drwy ein cyfryngau cymdeithasol corfforaethol dwyieithog.
Yr adran arweiniol fydd: Y Tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu.

Bydd y deilliannau hyn yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu famolaeth
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil
- Tlodi

Bydd yr amcan hwn yn gweithio o fewn y ffyrdd o weithio canlynol a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogiad

Bydd yr amcan hwn yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
- Defnyddio adnoddau yn ddoethach
- Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy cydnerth